**Enw a Math o leoliad:** Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan (LCDP)

**Ardal Awdurdod Lleol:** Bro Morgannwg

**Enw a swydd y person yn y lleoliad sy'n cwblhau'r astudiaeth achos yma:** Ben Thomas. Cydlynydd Pobl Ifanc a Chwarae

**Dyddiad cwblhau: 23/10/2020**

*Ym mis Hydref 2019 ymgymerais i, ynghyd â 7 aelod arall o staff Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan y Cwrs Cymraeg, Lefel Mynediad i Weithwyr Chwarae, a gafodd ei leoli yn Neuadd Les Llanharan. Roedd hyn wedi i'n Swyddog Cefnogi Cymraeg Gwaith, Phoebe Wilson o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ymweld â ni a chwblhau asesiadau cychwynnol gyda'n Hyrwyddwyr Cymraeg Gwaith ym mhob un o'n lleoliadau. Rhoddodd hyn gyfle i ni werthuso, gyda Phoebe, faint o Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio, a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar sut orau i wella'r defnydd o'r Gymraeg, yn y tymor byr a'r tymor hir. Rhoddodd hefyd i ni'r cyfle i drafod cynnwys y cwrs, pwy a fyddai orau o'n lleoliadau i'w fynychu, a hefyd trafododd gyda ni yr ariannu sydd ar gael i ganiatáu i'n staff fod yn bresennol yn ystod amser gwaith.*

*Gwnaeth ein tiwtor, Delyth, y cwrs yn wir fwynhad, a gwneud i ni i gyd ymlacio. Roed rhai o'r tîm yn poeni am ddysgu pethau newydd a mynd yn ôl i ddysgu eto wedi nifer o flynyddoedd; weithiau mae stigma neu gywilydd yn codi o gael pethau'n anghywir. Doedd dim angen i neb boeni; roedd y cwrs wedi ei lunio i'n pwrpas ni ac roedd y cyflymder dros yr wythnosau yn addas iawn.*

*Yn y Prosiect rydym ni'n rhedeg sawl darpariaeth a lleoliad, sy'n cynnwys Meithrinfa Ddydd, Cylch Chwarae, Gofal Dydd Cofleidiol, Clybiau Ôl-ysgol, Clybiau Gwyliau, Cynlluniau Chwarae a Chlwb Ieuenctid i blant a phobl ifanc. Mae pob person a ymgymerodd â'r cwrs yn gweithio mewn o leiaf dau o'n darpariaethau ac mae'r mwyafrif yn gweithio mewn sawl lleoliad rhwng darpariaethau adeg-tymor a darpariaethau gwyliau. Dywedodd pawb gymaint oedd y cwrs wedi eu helpu i roi Cymraeg Achlysurol ar waith yn y lleoliadau. Fe wnaethon nhw hefyd ddweud bod yr hyn y gwnaethon nhw ei ddysgu ar y cwrs yn hawdd ei drosglwyddo rhwng darpariaethau, a theimlaf mai dyma un o'r manteision mwyaf ni fel cyfundrefn. Er enghraifft, mae un o'n gweithwyr, Glyn, yn gweithio mewn cylchoedd chwarae yn y bore, gofal plant cofleidiol yn y prynhawn, ac yna'n arwain ein Clwb Ôl-ysgol yn y ganolfan gymunedol a Chlybiau Ieuenctid gyda'r nos. Yn ystod y gwyliau mae'n gweithio mewn cynlluniau chwarae. Mae e wedi dweud ei fod wedi gallu cyflwyno a defnyddio rhywfaint o Gymraeg elfennol yn yr holl leoliadau. Rydym hefyd yn teimlo fod gwneud hyn gyda'n gilydd fel tîm wedi ein helpu i ddal i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gilydd mewn lleoliadau, ac mae'n help i ni i gyd gofio gwneud.*

*O safbwynt busnes, roedd y gyfundrefn yn gallu llanw'r lleoedd staff y ddarpariaeth drwy ariannu a dderbyniwyd. Doedd yna ddim rhwystrau ariannol yn ffordd mynychu cwrs yn ystod y dydd; roedd hefyd yn galluogi'r staff hynny sydd â phlant i fynychu cwrs a fyddai gan amlaf yn cael ei redeg ar nosweithiau neu ar y penwythnos yn ystod amser teuluol.*

*Roedd yr adborth gan y staff yn rhyfeddol, ac mae'n ardderchog gymaint o hyder y mae'r staff wedi ei ennill dros gyfnod byr o amser drwy ddulliau dysgu Delyth. Mae'r staff yn wirioneddol eiddgar i ddefnyddio eu Cymraeg newydd, neu eu Cymraeg ychwanegol, gymaint â phosibl.*

*Am fwy o wybodaeth am ddysgu Cymraeg, ewch i wefan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: [https://learnwelsh.cymru/](https://learnwelsh.cymru/) neu cysylltwch â'ch cyfundrefn aelodau ynghylch cyrsiau Camau.*